Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Machynlleth Community Children's Project Ltd

**Tŷ Melfed**
**Craigfryn**
**Machynlleth**
**Powys**
**SY20 8JB**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Machynlleth Community Children's Project Ltd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Machynlleth Out of School Club |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Amherthnasol |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Iona Sawtell |
| Person â chyfrifoldeb | Holly Davidson<br>Shoned Rees<br>Kelly Watkinson |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 3 i 12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | Mae 16 o blant tair oed ac 14 o blant pedair oed |
| Nifer y plant sy'n derbyn cyllid ar gyfer addysg gynnar | 14 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am – 5.45pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Mae'r lleoliad yn darparu gofal ac addysg trwy gyfrwng y Saesneg; mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ddeg o blant. |
| A yw'r lleoliad hwn yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan AGC | 19 Ebrill 2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn | Mai 2013 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 5/7/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwneud defnydd effeithiol o arsylwadau i nodi cyfleoedd i ymestyn dysgu'r plant

A2 Sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio’n drylwyr bob amser

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Mae bron bob un o’r plant yn gwneud dewisiadau pwrpasol am yr hyn y maent am ei wneud. Maent yn hyderus wrth ddewis adnoddau a symud o un ardal ddysgu i'r llall. Mae ychydig o blant, nad ydynt yn barod i eistedd amser byrbryd, yn cael eu parchu i archwilio'r amgylchedd dysgu yn hapus. Er enghraifft, mae’r plant yn chwarae â'r blociau adeiladu, tra bo eraill yn dewis chwarae â'r deinosoriaid neu yn yr ardal chwarae tywod. Mae bron bob plentyn yn gallu mynegi ei hun ac mae’r ymarferwyr yn gwrando arnynt. Mae llawer o'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd, er enghraifft wrth ofyn i’r ymarferwyr am fwy o laeth. Mae ychydig o blant yn cyfathrebu ac yn mynegi eu hanghenion a’u hoffterau gan ddefnyddio arwyddion dieiriau, fel pwyntio. Yn ystod amser byrbryd, mae bron bob un o'r plant yn dewis eu hoff ddiodydd a thost.

Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn ymdopi’n dda wrth wahanu oddi wrth rieni a gofalwyr pan fyddant yn cyrraedd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfarch ymarferwyr gyda gwên ac yn codi llaw a gwenu arnynt ar eu ffordd adref. Mae bron bob un o’r plant yn fodlon ac yn hapus. Maent yn helpu eu hunain i hancesi papur pan fo angen ac yn mynd i'r orsaf ddŵr pan fydd syched arnynt. Mae bron bob un o’r plant yn ffurfio cysylltiadau cadarnhaol gyda’r ymarferwyr ac yn mynd atynt am gysur a chefnogaeth pan fo angen. Mae bron bob un o'r plant yn datblygu ymdeimlad o berthyn. Maent yn falch o ddangos eu gwaith crefft ac yn gwenu ar yr ymarferwyr pan fyddant wedi ennill canmoliaeth am fod yn garedig â'i gilydd.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda. Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn rhannu adnoddau’n gyson dda gyda’u ffrindiau. Er enghraifft, mae'r plant yn rhannu'r paent a'r brwshys wrth baentio yn yr ardal grefftau y tu allan. Mae llawer o'r plant yn dangos parch ac yn sensitif i deimladau eraill. Maent yn helpu ei gilydd pan fyddant yn ceisio pedlo'r beiciau drwy'r coed neu wrth geisio gwthio'r babanod yn y cadeiriau gwthio.

Mae bron bob un o’r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu cyfleoedd dysgu ac yn archwilio eu hardaloedd dysgu yn gyffrous. Maent yn cymryd rhan mewn gwneud marciau ac yn gwneud llinellau a siapiau yn llwyddiannus gan ddefnyddio'r pennau sychu sych a byrddau gwyn. Mae llawer o'r plant yn cynnal diddordeb ac yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser. Er enghraifft, maent yn gwrando'n dda ar yr ymarferwyr yn darllen stori, gan helpu i gyfrif nifer yr anifeiliaid ar bob tudalen.

Mae bron bob un o’r plant yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad wrth gwblhau eu tasgau, fel adeiladu adeileddau tri dimensiwn wrth ddefnyddio’r teils magnetig, gan ddweud “*Edrych beth dwi wedi adeiladu – dwi'n mynd i ddal y teigr!*” Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth priodol yn ôl eu hoedran a chyfnod eu datblygiad. Cyn amser byrbryd, mae'r plant hŷn sy'n mynychu darpariaeth y clwb ar ôl yr ysgol yn dilyn cyfarwyddiadau trwy helpu i osod y bwrdd. Maent yn trefnu'r cyllyll a ffyrc, y platiau a'r cwpanau ar y bwrdd ac yn arllwys eu diodydd eu hunain yn annibynnol. Mae'r plant iau yn helpu eu hunain i wahanol fwydydd sydd wedi'u gosod ar fyrddau ac yn taenu eu menyn eu hunain ar y tost. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn helpu i dacluso'r adnoddau pan fyddant wedi gorffen eu defnyddio.

**Dysgu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae bron bob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Siaradant yn hyderus am eu chwarae a gwnânt benderfyniadau defnyddiol am ble maent yn chwarae yn ystod sesiynau. Yn ystod profiadau a arweinir gan y plant, mae bron bob plentyn yn chwarae'n gydweithredol i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd. Er enghraifft, maent yn siarad yn frwdfrydig am yr hyn y gallent ddod o hyd iddo o dan y ddaear, megis diemwntau, pwll glo neu nyth deinosor. Maent yn arddangos sgiliau corfforol cryf sydd wedi'u datblygu'n dda sy'n eu galluogi i gloddio, dringo a rhedeg y tu allan yn hyderus. Mae bron bob un o'r plant yn trin offer bach gyda chywirdeb a rheolaeth gynyddol, er enghraifft wrth roi menyn ar eu tost eu hunain ac wrth edafu gleiniau bach.

Mae bron bob un o'r plant yn mwynhau trin llyfrau a gwrando ar storïau, gan ymateb i gwestiynau sy'n procio'r meddwl fel trafodaethau diddorol am freuddwydion. Maent yn mynegi eu hunain yn dda, ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhoi disgrifiadau manwl o'r hyn a welant yn eu chwarae, er enghraifft wrth blannu eginblanhigion yn yr ardd. Maent yn mwynhau gwneud marciau ac yn trin offer bach gyda hyder cynyddol. Er enghraifft, defnyddiant sisyrnau i dorri dail a blodau, a defnyddiant gerdyn, sticeri a beiros i greu cardiau. Mae bron bob un o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain, ac mae llawer yn adnabod enwau eu ffrindiau.

Mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth gadarn am fyd natur ac yn cymryd diddordeb gweithredol yn y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn plannu tomatos ac yn trin malwod, gwlithod a phryfed cop gyda hyder a mwynhad amlwg. Maent yn mwynhau cerddoriaeth ac yn gwneud synau ag offerynnau gyda brwdfrydedd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau arbrofi gydag ystod o adnoddau chwarae anniben, fel blawd, paent powdr, mwd, a gleiniau dŵr. Maent yn trin y rhain gyda hyder a mwynhad, gan ofyn cwestiynau defnyddiol a gwneud penderfyniadau pwrpasol.

Mae bron bob un o'r plant yn cyfrif ac yn defnyddio rhifau yn eu chwarae, er enghraifft defnyddio teils rhif i ddatrys problemau ac adeiladu modelau tri dimensiwn allan o siapiau. Maent yn cyfrif gyda hyder cynyddol fel rhan o'u chwarae. Mae bron bob un o'r plant yn gwneud dewisiadau defnyddiol a phwrpasol am eu chwarae. Maent yn gofyn cwestiynau i ddatblygu eu dealltwriaeth, ac mae hyn yn cefnogi eu hyder a'u datblygiad personol a chymdeithasol yn dda. Gwna'r rhan fwyaf o'r plant gynnydd da wrth gaffael sgiliau Cymraeg. Er enghraifft, maent yn cyfrif i ddeg gyda'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau Cymraeg syml yn ystod eu chwarae.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch yn effeithiol. Mae bron bob un wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, ac yn cofnodi damweiniau ac anafiadau sydd eisoes yn bodoli yn brydlon. Mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr i ddiogelu iechyd a diogelwch y plant, ac maent yn eu gweithredu'n bwrpasol. Mae bron pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid da – er enghraifft, maent yn golchi dwylo, ac yn gwisgo dillad amddiffynnol priodol i baratoi bwyd. Maent yn cwblhau asesiadau risg dyddiol a rhestrau gwirio, gan sicrhau bod yr holl fesurau glanhau, hylendid ac atal a rheoli heintiau ar waith. Mae’r ymarferwyr yn hybu bwyta'n iach ac yn ymwybodol o'r canllawiau bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant. Maent yn darparu bwydlen iach a chytbwys o fwydydd a diodydd maethlon i'r plant ar gyfer amser byrbrydau'r plant. Maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn dda ac yn darparu cyfleoedd cyson i'r plant fod yn egnïol ac i ddatblygu eu sgiliau.

Mae gan yr holl ymarferwyr cydberthnasau agos â'r plant ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn eistedd ar lefel y plant ar gyfer trafodaethau a rhyngweithio yn ystod chwarae rôl a chyfleoedd dysgu. Dilynant y polisi rheoli ymddygiad yn effeithiol a defnyddiant bob cyfle i ganmol y plant. Maent yn canmol y plant am rannu ag eraill, ac yn dathlu cyflawniadau'r plant wrth baentio ac adeiladu tŵr o flociau. Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn dangos sensitifrwydd tuag atynt. Er enghraifft, pan nad yw'r plant eisiau dod i mewn i baratoi ar gyfer amser cartref, mae'r ymarferwyr yn tynnu eu sylw at eu hoff deganau ac adnoddau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n agos ar bob adeg, yn enwedig yn ystod cyfnodau pontio prysur.

Mae'r ymarferwyr yn cynorthwyo'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Gweithiant mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i nodi a datblygu targedau unigol a'r camau nesaf ar gyfer y plant. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gyfredol addas o ddatblygiad plant a'r effaith mae anghenion dysgu ychwanegol yn ei chael ar ddatblygiad plant. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, ac maent yn darparu cymorth effeithiol ar eu cyfer mewn meysydd penodol.

Mae’r ymarferwyr yn diwallu anghenion bron bob un o’r plant yn dda. Maent yn dilyn diddordebau'r plant a'u rhoi ar waith wrth gynllunio ar y pryd. Mae’r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn defnyddio geiriau, caneuon ac ymadroddion Cymraeg yn achlysurol trwy gydol y sesiwn. Maent yn cynllunio themâu a gweithgareddau sy’n hybu dealltwriaeth o gydraddoldeb, diwylliannau ac amrywiaeth, er enghraifft dathliadau’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu ac asesu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod gyffrous o brofiadau dysgu ysgogol sy'n diwallu anghenion a diddordebau'r plant yn effeithiol. Maent yn defnyddio ardal chwarae awyr agored ag adnoddau da i adeiladu ar ddealltwriaeth y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r plant yn datblygu sgiliau corfforol defnyddiol wrth redeg, pedlo a dringo yn ystod eu chwarae. Mae hyn yn datblygu cryfder a chydbwysedd y plant wrth iddynt gydweithio'n bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd yn eu chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn creu cardiau, yn paentio lluniau ac yn addurno amlenni yn annibynnol ac mae hyn yn cefnogi eu dealltwriaeth o bwrpas gwneud marciau yn dda. Mae'r ymarferwyr yn adeiladu ar ddiddordeb y

plant mewn llyfrau a'u gwybodaeth amdanynt yn effeithiol trwy ddarllen storïau sy'n berthnasol i'w profiadau. Er enghraifft, wrth drin malwod, atgoffodd yr ymarferydd y plant o stori gyfarwydd yr oeddent wedi'i mwynhau.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu sgiliau corfforol a rhifedd y plant trwy gyfleoedd heriol sy'n hwyl ac yn gyffrous. Er enghraifft, mae'r plant yn datblygu eu gallu i gloddio a phlannu, gan ddefnyddio offer garddio gyda mwynhad amlwg, ac maent yn cynnwys cyfrif yn naturiol yn eu chwarae. Maent yn annog y plant i arbrofi, a datrys problemau, er enghraifft wrth greu eu modelau eu hunain neu wrth symud pridd o un ardal i'r llall.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl – er enghraifft, defnyddio siswrn i dorri dail a blodau, ac edafu â gleiniau bach. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn rhoi menyn ar eu tost eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi datblygiad iaith y plant yn ystod profiadau chwarae. Wrth edrych yn ofalus ar wlithod, pryfed cop, mwydod a malwod, mae'r ymarferwyr yn caniatáu i'r plant eu trin ac yn eu hannog i ofyn cwestiynau wrth edrych yn ofalus arnynt. Mae hyn yn helpu'r plant i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith wrth ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas nhw.

Mae ystod ddefnyddiol o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant yn dda. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r awyr agored i wella cyfleoedd chwarae ac mae'r amgylchedd yn hyrwyddo ymdeimlad o chwilfrydedd ac o archwilio'n ddefnyddiol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad o syndod a rhyfeddod mewn plant yn llwyddiannus wrth blannu eginblanhigion ac wrth gasglu ffrwythau i'w bwyta o'r planhigion yn yr ardd.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi anghenion pob dysgwr yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad y plant, a defnyddiant hon yn dda i gefnogi chwarae a dysgu'r plant. Maent yn egluro pethau'n glir ac yn modelu gweithgareddau yn bwrpasol pan fo'n briodol. Gall y plant arwain eu dysgu a datblygu eu sgiliau annibynnol yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn cefnogi eu diddordebau yn llwyddiannus i adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn defnyddio eu harsylwadau yn ddigon da i ymestyn dysgu'r plant.

**Yr amgylchedd:**

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol i ddiwallu anghenion diogelwch y plant. Mae drysau sy'n cloi ynddo ac mae'n ofynnol i ymwelwyr lofnodi yn brydlon wrth gyrraedd y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn creu amgylchedd diogel ac addas ac yn sicrhau bod asesiadau risg dyddiol yn eu lle er mwyn lleihau risgiau diogelu posibl a risgiau o ran croes-heintio. Mae ymarferion tân a gwiriadau cynnal a chadw ar waith. Er enghraifft, cynhelir gwiriadau rheolaidd ar offer trydanol a systemau gwresogi pan fo angen. Mae cyfleusterau ymolchi a thoiledau yn addas ac yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y plant yn cael eu parchu.

Mae'r plant yn derbyn gofal ac yn cael eu haddysgu mewn ystafell chwarae eang, a drefnir i hyrwyddo eu hannibyniaeth yn effeithiol ac sy’n annog sgiliau chwilfrydedd a datblygiadol. Trefnir yr ardaloedd mewnol i ddarparu ystod eang o gyfleoedd ysgogol, sy'n annog y plant i symud o un gweithgaredd i'r nesaf yn effeithiol. Er enghraifft, dewisodd rhai o'r plant chwarae â’r dillad gwisgo i fyny yn yr ardal chwarae rôl cyn symud i chwarae â’r blociau yn yr ardal adeiladu.

Mae'r cyfleusterau dan do yn diwallu anghenion y plant, gan gynnwys ardaloedd darllen a mannau chwarae rôl yn ogystal â chyflenwad da o adnoddau naturiol. Mae ystod dda o adnoddau ym mhob ardal ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn dda ac yn gweithio'n gywir. Mae gan y plant fynediad hawdd at y teganau ac adnoddau sydd o fewn eu cyrraedd. Mae'r amgylchedd yn dawel, yn groesawgar ac yn ddeniadol. Mae'r arddangosfeydd o thema niwtral a gwaith celf y plant yn ychwanegu at yr amgylchedd croesawgar. Mae byrddau a chadeiriau addas i ddiwallu anghenion y plant amser prydau bwyd, ac mae prosesau ar waith i sicrhau arferion glanhau a hylendid bwyd.

Mae'r ardal allanol yn hyrwyddo datblygiad y plant yn yr awyr agored. Mae'r plant yn mwynhau chwarae â nifer o adnoddau amrywiol. Er enghraifft, maent yn mwynhau gwylio dŵr yn rhedeg i lawr y pibellau ar wahanol lefelau yn yr ardal ddŵr. Mae eraill yn frwdfrydig iawn am gloddio yn yr ardd a chwilio am fwystfilod bach. Mae'r amgylchedd â llif rhydd, ac mae'r plant yn dewis yn rhydd rhwng chwarae dan do neu yn yr awyr agored.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sef datblygu plant hapus trwy amgylchedd gofalgar a diogel lle maent yn dysgu trwy brofiadau chwarae cyffrous. Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd deniadol sy'n galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau corfforol, cymdeithasol a deallusol yn effeithiol. Mae’r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda’r ymarferwyr trwy gyfarfodydd rheolaidd bob dydd. Mae hyn yn galluogi'r holl ymarferwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hysbysu'n dda am anghenion y plant.

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel a brwdfrydedd i gefnogi datblygiad y plant ym mhob maes. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer nodi cryfderau'r lleoliad a meysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr wedi nodi canu fel targed i ddatblygu sgiliau creadigol y plant ac maent bellach yn annog y plant i ddefnyddio a thrin ystod o offerynnau cerdd yn ystod sesiynau canu a chwarae rhydd.

Mae’r ymddiriedolwyr yn cefnogi gwaith y lleoliad yn effeithiol. Maent yn helpu'r arweinwyr i ddarparu profiadau diogel a heriol, gan gynnig arweiniad priodol pan fydd angen.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o amser y trosglwyddiad dyddiol i gyfathrebu â'r rhieni, ac i rannu’r profiadau y mae’r plant wedi cymryd rhan ynddynt. Maent yn mwynhau cydberthnasau cadarnhaol gyda'r rhieni, gan siarad â nhw'n rheolaidd a sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau yn y lleoliad trwy hysbysfwrdd a chyfathrebu llafar. Mae'r arweinwyr yn adrodd i'r rhieni pan fydd y plant yn gadael y lleoliad ac yn rhannu’r wybodaeth hon gyda’r ysgol leol.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i gefnogi dysgu a llesiant y plant. Er enghraifft, mae trefniadau pontio cadarn gyda'r brif ysgol fwydo, sy’n cefnogi’r plant wrth iddynt symud i’r cam nesaf yn eu haddysg. Mae cydberthynas gadarnhaol ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol, ac mae'r arweinwyr yn ymateb yn effeithiol i'r argymhellion ar gyfer gwelliant. Mae'r trefniadau i gefnogi anghenion y plant yn gryfder yn y lleoliad, gan fod yr arweinwyr yn gweithio'n sensitif ac yn empathetig gyda'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cynnwys asiantaethau ac yn gweithio i sefydlu arferion a phrofiadau cadarnhaol sy'n cefnogi cynnydd y plant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd rhagorol o'r ardaloedd dysgu a'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu eu hyder, eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u sgiliau yn effeithiol o dan arweiniad lleoliad trefnus. Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y lleoliad yn mynd i'r afael â rheoliadau sy'n cefnogi eu gwaith. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n dda fel tîm.

Mae'r ymarferwyr yn ymdrechu i wella eu perfformiad trwy gyfleoedd hyfforddi sy’n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant, megis wrth drosglwyddo i’r cwricwlwm newydd. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd addas o’r broses arfarnu i nodi gofynion hyfforddi, ac mae hyn yn arwain at ymarferwyr yn datblygu eu sgiliau mewn ystod o agweddau sy’n cefnogi’r plant yn dda.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru).

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Cyfieithu Clir (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/09/2022